**CABINET** **CAB(17-18)09**

# Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

**Y penderfyniad a geisir**

**Gofynnir i'r Cabinet nodi:**

- **y cynigion ar gyfer aelodaeth a chylch gorchwyl y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (y Comisiwn);**
- **amseru gwaith y Comisiwn; ac**
- **y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno tystiolaeth sydd wedi'i chydlynu i'r Comisiwn.**

1. Ar 18 Medi, cyhoeddais gerbron aelodau'r Cynulliad, ac wedyn yng nghynhadledd *Wales Said Yes*, fy mod am sefydlu Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd (yr Arglwydd Thomas) pan fyddai'n rhoi'r gorau i'w gyfrifoldebau fel Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr (ym mis Hydref). Daeth hyn yn sgil dadl y Cynulliad am y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynglŷn â Bil Cymru ym mis Ionawr, pan ddywedais wrth yr aelodau fod materion sylfaenol cyfiawnder a'r awdurdodaeth heb eu datrys yn y Bil, er gwaethaf y cynigion adeiladol a gynigiwyd gennym i Lywodraeth y Deyrnas Unedig er mwyn mynd i'r afael â hyn.

2. Ein dadl ni drwy gydol hynt Bil Cymru oedd y dylid sefydlu comisiwn i ystyried y trefniadau y mae angen eu sefydlu er mwyn sicrhau bod gennym system gyfiawnder yng Nghymru sy'n addas i'r diben ac yn addas ar gyfer y setliad datganoli newydd. Roedd argymhellion Comisiwn Silk yn ganlyniad rhesymu gofalus, ar sail tystiolaeth, am gyfiawnder ieuenctid, y llysoedd, prawf a charchardai, ond nid yw'r rhain wedi'u datrys o hyd, ac mae materion hollbwysig hefyd y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran yr awdurdodaeth gyfreithiol a'r heriau mawr sy'n wynebu sector y gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru.

3. Rhoddais gadarnhad y byddwn yn darparu manylion am aelodau'r Comisiwn a'i gylch gorchwyl yn ddiweddarach yn yr hydref.

## *Aelodaeth*

4. Gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cynnig ar gyfer aelodau'r Comisiwn a'r bywgraffiadau cryno sydd yn yr Atodiad.

   - Yr Arglwydd Thomas - Cadeirydd
   - Juliet Lyon - cyn Gyfarwyddwyr Ymddiriedolaeth Diwygio'r Carchardai

- Sarah Payne - cyn Gyfarwyddwr Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru
- Yr Athro Elwen Evans QC - cyfreithwraig droseddol a Phennaeth Coleg y Gyfraith, Prifysgol Abertawe
- Simon Davies - cyn Bartner rheoli Linklaters a chyn pennaeth pobl, swyddog cyfreithiol a strategaeth Grŵp Bancio Lloyds.
- Dr Nerys Llewelyn Jones - sylfaenydd a Phartner Rheoli Agri Advisor
- Yr Athro Richard Rawlings – Athro Cyfraith Gyhoeddus Coleg Prifysgol Llundain
- Syr Wyn Williams - cyn Farnwr yr Uchel Lys a Llywydd dros dro Tribiwnlysoedd Cymru
- Peter Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

***Cylch gorchwyl***

5. Gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cynnig ar gyfer cylch gorchwyl y Comisiwn. Mae'r cylch gorchwyl yn un eang er mwyn cwmpasu ystod lawn yr ystyriaethau ynghylch awdurdodaeth, pwerau a materion gweithredol sy'n berthnasol i'r cyfrifoldeb dros wasanaethau cyfiawnder a phlismona a'u darparu yn y Gymru ddatganoledig.

   Adolygu sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru a llunio gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol, gyda golwg ar:

   - hybu gwell canlyniadau o ran mynediad at gyfiawnder, lleihau troseddu a hyrwyddo adsefydlu;
   - sicrhau bod y trefniadau o ran awdurdodaeth ac addysg gyfreithiol yn mynd i'r afael â swyddogaeth cyfiawnder ac yn ei hadlewyrchu yn nhrefniadau llywodraethu ac yn ffyniant Cymru, yn ogystal â'r materion unigryw sy'n codi yma;
   - hybu nerth a chynaliadwyedd sector gwasanaethau cyfreithiol Cymru a sicrhau ei fod yn cyfrannu i'r eithaf at ei ffyniant.

***Amseru gwaith y Comisiwn***

6. Ein tybiaethau gweithio yw y bydd angen o leiaf 18 mis ar y Comisiwn er mwyn rhoi ystyriaeth lawn i gwmpas eang a phwysigrwydd ei waith yn y dyfodol ac i ddatblygu argymhellion; bydd yn dechrau ar ei waith ddiwedd 2017 ac yn cyhoeddi ei adroddiad tua chanol 2019.

7. Gofynnaf i'r Cabinet nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru gyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn pan fydd yn gwneud cais am hynny, a bod hyn yn debygol o ddigwydd ddechrau 2018. Bydd hyn yn adlewyrchu'r dull a ddilynwyd wrth gynnal Comisiynau eraill, gan gynnwys Comisiwn Richard a Chomisiwn Silk. Bydd angen i Aelodau'r Cabinet ddechrau ystyried y materion a'r cyfleoedd sy'n codi yn sgil cylch gorchwyl y Comisiwn sy'n berthnasol i'w portffolio.

**Effaith**

8. Rôl a chylch gwaith y Comisiwn fydd ymchwilio i ystod eang o faterion sy'n gwneud gwahaniaeth o bwys i bobl Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ffyrdd o wella'r mynediad at gyfiawnder, lleihau troseddu a hyrwyddo adsefydlu troseddwyr, gan ddatblygu gallu'r sector gwasanaethau cyfreithiol, sy'n gwneud cyfraniadau pwysig iawn at ffyniant economaidd a chydnerthedd cymunedau. Gwaith y Comisiwn fydd argymell sut a pha bryd y dylid diwygio'r system gyfiawnder a chyflwyno'r trefniadau newydd.

9. Mae cylch gorchwyl y Comisiwn yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae pwrpas cyffredinol y Comisiwn, cwmpas adolygu gweithredu'r system gyfiawnder yng Nghymru a llunio gweledigaeth hirdymor ar gyfer ei dyfodol yn gyson ag egwyddor datblygu cynaliadwy sef arddel ymagwedd tymor hir. Mae ceisio sicrhau gwell canlyniadau'n unol â'r Ddeddf, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar ganlyniadau a bydd llu o gyfleoedd i hyrwyddo dulliau gweithio cydweithredol wrth ddatblygu argymhellion y Comisiwn a'u rhoi ar waith.

**Ymchwil a /neu Ystadegau**

10. Nid oes dim ystadegau nac ymchwil wedi'u cynnwys yn y papur hwn.

**Cyfathrebu a chyhoeddi**

11. Bwriadaf gyhoeddi datganiad ysgrifenedig i aelodau'r Cynulliad ar 20 Tachwedd, ynghyd â datganiad i'r wasg, i gadarnhau aelodaeth a chylch gorchwyl y Comisiwn. Ceir cyhoeddi papur y Cabinet, ac eithrio paragraffau 10 i 14, a rhan o baragraff 4, chwe mis ar ôl y cyfarfod ar 7 Tachwedd pan fydd y Cabinet yn ei ystyried.

**Argymhelliad:**

**Gofynnir i'r Cabinet nodi:**

- **y cynigion ar gyfer aelodaeth a chylch gorchwyl y Comisiwn;**
- **amseru gwaith y Comisiwn; ac**
- **y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chyflwyno tystiolaeth sydd wedi'i chydlynu i'r Comisiwn.**

**Gweithio Cydlynol**

12. Mae Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Dirprwy Gyfarwyddwr Diogelwch Cymunedol wedi cyfrannu at gynnwys y papur.

**Carwyn Jones**
**Y Prif Weinidog**
**Tachwedd 2017**